**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Byddai'r Cynghorydd Win Mullen-James yn cyrraedd y cyfarfod yn hwyr oherwydd ymrwymiad cynharach. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | CANLYNIAD ADOLYGIAD Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU O BENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD Â'R CYNNIG AM ARBEDION I'R GWASANAETH LLYFRGELLOEDD/SIOPAU UN ALWAD | ***PENDERFYNWYD*** *–*<br><br>*(a) Bod y Cabinet yn cydnabod arsylwadau, canlyniadau ac argymhellion Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r 'Cynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd / Siop Un Alwad', ac*<br><br>*(b) Nad yw'r Cabinet yn derbyn argymhelliad 3.2 adroddiad y Pwyllgor Craffu, mae'n cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol a wnaeth ar 19 Rhagfyr 2023, ac yn ymgymryd â mwy o waith i nodi ffynonellau cyllid amgen.* |
| **6** | CYLLIDEB Y CYNGOR 2024/25 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn nodi effaith y Setliad Dros Dro ar gyfer 2024/25;*<br><br>*(b) cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2024/25;*<br><br>*(c) argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog o 8.23% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *gwasanaethau'r Cyngor ynghyd ag 1.11% yn ychwanegol ar gyfer y cynnydd yn yr ardoll i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; mae hyn yn hafal i gynnydd cyffredinol o 9.34% a gynigir;*<br><br>*(d) argymell i'r Cyngor bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i Bennaeth Cyllid ac Archwilio mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500,000 os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol;*<br><br>*(e) cefnogi'r strategaeth i ddefnyddio arian wrth gefn fel y nodir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad a'i hargymell i'r Cyngor llawn; a*<br><br>*(f) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel y nodir yn Adran 7 yr adroddiad.* |
| **7** | YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR "DRETH GYNGOR DECACH" | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad fel y nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad, a chefnogi argymhellion swyddogion ynglŷn â'r cynnig ehangach a'i gyflawni drwy ddull cynyddrannol, a*<br><br>*(b) gweithredu'r penderfyniad ar unwaith fel penderfyniad brys dan Adran 7.25 Cyfansoddiad y Cyngor yn seiliedig ar y rhesymeg a nodir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*. |
| **10** | GWAREDU FFERM PERONNE, FFORDD COPPY, DINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo datgan nad oes angen Fferm Peronne, sydd ag amlinell goch ar y cynllun yn Atodiad A yr adroddiad, a chymeradwyo cael gwared â'r fferm fel y nodir yn yr adroddiad, a*<br><br>*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad D yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |